

Canllawiau Sylfaenol i Arweinyddion

1. Rhaid i bob Arweinydd gyflawni DBS – mae'n hanfodol bod pob Arweinydd yn gwneud hyn. Sicrhewch hefyd eich bod yn ymwybodol o ganllawiau amddiffyn plant, yn enwedig os oes aelodau sy'n iau na 18 oed yn y Clwb. Bydd hyn yn eich diogelu chi yn ogystal â'r aelodau.
2. Mae Arweinydd Clwb yn darparu cyngor, cefnogaeth ac arweiniad i swyddogion ac aelodau'r clwb, o safbwynt holl agweddau cynnal Clwb Ffermwyr Ifanc.
3. Dewch i adnabod eich clwb a'r aelodau. Bydd hyn yn eich galluogi i benderfynu pryd y dylid cynorthwyo a phryd y dylid cymryd cam yn ôl ac arsylwi.
4. Parchwch werthoedd a safbwyntiau'r bobl ifanc a'r rhinweddau y mae'r swyddogion yn cyfrannu i'r gwaith; efallai nad ydynt yn gwneud pethau yn ôl eich dull chi, ond fe allai eu dulliau hwy lwyddo serch hynny
5. Byddwch yn ddiplomatig a chofiwch mai'r aelodau sydd â'r gair olaf.
6. Gweithredwch fel 'mentor' i'r swyddogion clwb, yn enwedig i'r swyddogion newydd, ifanc a dibrofiad.
7. Peidiwch a beirniadu'r aelodau neu ddweud 'ddywedais i na fyddai'n llwyddo'.
8. Sicrhewch fod y clwb yn dilyn unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol.
9. Sicrhewch eich bod yn gyfarwydd â'r Polisi Iechyd a Diogelwch a gofynnwch am gefnogaeth gan y swyddfa sirol o safbwyntiau sefydlu gweithdrefnau iechyd a diogelwch/asesu risg.
10. Sicrhewch eich bod yn deall swyddogaethau'r aelodau yr ydych yn ei cefnogi a'u bod hwy yn deall eich swyddogaeth chi.
11. Gweithredwch os a phan fydd angen cefnogi'r clwb yn ystod amseroedd anodd.
12. Cadwch gyswllt a'r clwb trwy fynychu'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau'n rheolaidd neu drwy ddulliau eraill fel y bo'n addas. **Rhaid bod o leiaf dau Arweinydd yn bresennol ym mhob gweithgaredd clwb.**
13. Sicrhewch fod y clwb yn darparu rhaglen gytbwys ar gyfer yr aelodau.
14. Byddwch yn hawdd mynd atoch ac eich bod yn barod i wrando bob amser, waeth pa mor brysur ydych chi.
15. Sicrhewch fod yr aelodau'n gwybod sut i gysylltu â chi, a'ch bod ar gael os ydynt eich angen chwi.
16. Rhannwch air o brofiad gydag arweinyddion eraill, o fewn y clwb ac o glybiau eraill.
17. Cofiwch, nid oes rhaid i chi fod yn arbenigwr ymhob maes, ond dylech fod yn barod i ddarnganfod beth i'w wneud os na allwch ddatrys problem benodol.
18. **Sicrhewch bod pob aelod sy'n mynychu digwyddiad o'r Clwb yn aelodau – hanfodol bwysig er mwyn bod yr yswiriant yn eu diogelu.**
19. Cofiwch gysylltu a ni yn y Swyddfa os oes gennych unrhyw ymholiadau. Ni yma i'ch helpu!!! Ein rhif cyswllt newydd yw: 01570 471444.